# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 2

GORDEWDRA

### 2 Strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gordewdra: cyhoeddi ac adolygu

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar atal gordewdra, a lleihau lefelau gordewdra, yng Nghymru.

(2) Rhaid i'r strategaeth—

(a) pennu amcanion y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddant, os y'u cyflawnir, yn cyfrannu at atal gordewdra;

(b) pennu amcanion y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddant, os y'u cyflawnir, yn cyfrannu at leihau lefelau gordewdra;

(c) nodi sut y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu cyflawni'r amcanion penodedig.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth—

(a) ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau â'r dyddiad y cyhoeddir y strategaeth am y tro cyntaf, a

(b) ar ddiwedd pob cyfnod dilynol o dair blynedd.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio'r strategaeth ar unrhyw adeg.

(5) Os yw Gweinidogion Cymru yn diwygio'r strategaeth, rhaid iddynt gyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol—

(a) cyn iddynt gyhoeddi'r strategaeth am y tro cyntaf, a

(b) ar ôl hynny, cyn pob adolygiad o dan is-adran (3).